WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio – **Cyngor Sir Caerfyrddin**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 717A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon i Gyngor Sir Caerfyrddin ei defnyddio’n fewnol. Nid yw’r Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na’r archwilydd penodedig, lle y bo’n berthnasol, yn derbyn dim cyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu unrhyw aelod arall o staff yn rhinwedd eu swyddi unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai’r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn amlinellu’r camau y dylai awdurdodau cyhoeddus eu cymryd wrth ymdrin ag ymholiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Yng nghyd-destun y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru a, lle bo hynny’n berthnasol, yr archwilydd penodedig, yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio’r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Y tîm a baratôdd yr adroddiad oedd Jeremy Evans, Jason Garcia ac Alison Lewis dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi ymrwymo i wella'r modd y mae'n gweithredu ac mae angen iddo gymryd camau'n awr i weithio'n fwy effeithiol mewn meysydd allweddol i ymgymryd â'i rôl yn llawnach.


Adroddiad cryno

Cynigion ar gyfer gwella 5

Gallai'r Pwyllgor Archwilio weithredu'n fwy effeithiol pe bai gan aelodau'r Pwyllgor ddealltwriaeth well o'i gylch gwaith 6

Mae angen i'r Pwyllgor Archwilio gryfhau ei rôl ym maes rheoli risg a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 7

Mae angen i'r Cyngor ddatblygu ymhellach ei drefniadau i adolygu effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio 10

# Crynodeb

1 Fel rhan o raglen waith Swyddfa Archwilio Cymru 2017-18, aethom ati i adolygu Pwyllgor Archwilio Cyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor). Ystyriwyd a yw Pwyllgor Archwilio'r Cyngor yn ymgymryd yn effeithiol â'i gylch gwaith yn ôl y gofynion a osodwyd yn y ddeddfwriaeth a'r canllawiau proffesiynol perthnasol ac yn ei gyfansoddiad ei hun. Ystyriwyd hefyd a lwyddwyd i fwrw ymlaen â'r camau y cytunwyd i'w cymryd yn sesiwn adolygu cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf 2016.

2 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 sy'n llywodraethu pwyllgorau archwilio ein cynghorau. Yn ei ddogfen ganllaw, a gyhoeddwyd yn 2013, cyflwynodd Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) gylch gorchwyl ac egwyddorion craidd enghreifftiol ar gyfer pwyllgorau archwilio[1].

3 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, yn nodi bod yn 'rhaid i awdurdod lleol benodi pwyllgor archwilio:

- i arolygu materion ariannol yr awdurdod a chraffu arnynt;
- i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod;
- i adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol;
- i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny;
- i arolygu trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod; ac
- i adolygu'r datganiadau ariannol a lunnir gan yr awdurdod.'

4 Yn ôl canllawiau CIPFA, mae pwyllgorau archwilio yn elfen allweddol o lywodraethu a'u swyddogaeth yw darparu adnodd annibynnol, lefel uchel, i hybu arferion llywodraethu da ac arferion dibynadwy ym maes rheoli cyllid cyhoeddus. Mae'r canllawiau'n nodi mai "diben Pwyllgor Archwilio yw rhoi sicrwydd annibynnol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu fod y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheoli mewnol a'r prosesau adrodd ariannol a llywodraethu blynyddol yn ddigonol. Gan hynny, maent yn rhan bwysig o'r gwaith o sicrhau'r sefydliad bod ei drefniadau rheoli risg yn ddibynadwy, o gynnal amgylchedd rheoli effeithiol ac o gyflwyno adroddiadau ar berfformiad ariannol y sefydliad ac agweddau eraill ar ei berfformiad". At ddibenion cymeradwyo cyfrifon ariannol, mae'r Cyngor wedi pennu mai'r Pwyllgor Archwilio yw'r corff sy'n gyfrifol am lywodraethu'r Cyngor.

[1] CIPFA (2013) Audit Committees – Practical Guidance for Local Authorities and Police (2013 Edition). Ers i ni gwblhau'r gwaith maes, mae CIPFA wedi diweddaru'r canllawiau, ac mae rhifynn 2018 ar gael yn awr.

5 Yn ystod mis Tachwedd 2017 a mis Ebrill 2018, buom yn arsylwi'r Pwyllgor Archwilio. Buom hefyd yn adolygu dogfennau, yn cyfweld swyddogion a chynghorwyr ac yn cynnal gweithdy gydag aelodau'r Pwyllgor Archwilio i geisio'u barn am Bwyllgor Archwilio'r Cyngor.

6 Yn yr adolygiad hwn, gofynnwyd 'A yw'r Pwyllgor Archwilio yn ymgymryd yn effeithiol â'i gylch gwaith?' Daethom i'r casgliad fod y Pwyllgor wedi ymrwymo i wella'r modd y mae'n gweithredu ac mae angen iddo gymryd camau'n awr i weithio'n fwy effeithiol mewn meysydd allweddol i ymgymryd â'i rôl yn llawnach. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- gallai'r Pwyllgor Archwilio weithredu'n fwy effeithiol pe bai gan aelodau'r Pwyllgor ddealltwriaeth well o'i gylch gwaith;
- mae angen i'r Pwyllgor Archwilio gryfhau ei rôl ym maes rheoli risg a'r Datganiad Llywodraethu; ac
- mae angen i'r Cyngor ddatblygu ymhellach ei drefniadau i adolygu effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio.

# Cynigion ar gyfer gwella

7 Mae'r tabl isod yn cynnwys ein cynigion i'r Cyngor sicrhau bod ei Bwyllgor Archwilio'n gweithredu'n fwy effeithiol.

Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| **C1** | **Adolygu rôl y Pwyllgor Archwilio yn y broses o baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.** |
| **C2** | **Cryfhau rôl y Pwyllgor Archwilio drwy sicrhau bod y gofrestr risg yn cael ei chyflwyno i'r pwyllgor yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ac, os oes angen sicrwydd ychwanegol ynghylch risgiau penodol, caiff perchnogion risg eu gwahodd i gyfarfodydd y Pwyllgor i drafod mesurau lliniaru risg.** |
| **C3** | **Sicrhau bod holl aelodau'r Pwyllgor Archwilio'n cael fersiynau llawn o'r holl adroddiadau archwilio mewnol a'r adroddiadau rheoleiddio ac archwilio allanol, a chryfhau trefniadau ar gyfer olrhain y camau a gymerir i ymdrin â'r argymhellion y maent yn eu cynnwys.** |
| **C4** | **Gwella'r wybodaeth a roddir i'r Pwyllgor Archwilio drwy:**<br>• sicrhau bod adroddiadau'n cynnwys digon o gyd-destun a chefndir i ganiatáu i aelodau'r pwyllgor ddeall y risgiau a'r problemau allweddol; a<br>• sicrhau bod adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth fwy penodol am y camau y mae angen i'r Pwyllgor Archwilio eu cymryd i ymgymryd â'r swyddogaethau craidd. |

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| **C5** | **Cwblhau'r gwaith o roi'r trefniadau rheoli diwygiedig ar waith yng nghyd-destun y swyddogaeth archwilio mewnol i sicrhau bod unrhyw wrthdaro buddiannau posibl yn cael eu lliniaru.** |

# Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi ymrwymo i wella'r modd y mae'n gweithredu ac mae angen iddo gymryd camau'n awr i weithio'n fwy effeithiol mewn meysydd allweddol i ymgymryd yn llawnach â'i rôl.

## Gallai'r Pwyllgor Archwilio weithredu'n fwy effeithiol pe bai gan aelodau'r Pwyllgor ddealltwriaeth fwy cynhwysfawr o'i gylch gwaith

8 Mae cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio wedi'i ddiffinio'n glir yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys wyth cynghorydd ac un aelod lleyg allanol a gaiff ei gyfethol, ac sydd â phleidlais. Newidiodd aelodaeth y Pwyllgor yn dilyn etholiadau'r Cyngor fis Mai 2017, felly mae'r rôl yn newydd iawn i rai aelodau o'r Pwyllgor Archwilio.

9 Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cyfarfod bob chwarter. Mae gan y Pwyllgor flaenraglen waith ac mae hon ar yr agenda ym mhob un o'i gyfarfodydd. Fodd bynnag, anaml y bydd aelodau'r Pwyllgor yn newid y flaenraglen waith y bydd swyddogion yn ei chyflwyno iddynt.

10 Caiff rhag-gyfarfodydd eu cynnal cyn y Pwyllgor Archwilio. Mae'r rhain yn cynnwys y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn fforwm i swyddogion dynnu sylw at faterion allweddol, ac i'r Cadeirydd fynd drwy'r agenda i baratoi at y cyfarfod. Yn ôl yr aelodau hynny o'r Pwyllgor a oedd yn mynd i'r rhag-gyfarfodydd, roeddent yn ffordd fuddiol o baratoi at gyfarfodydd y Pwyllgor.

11 Rhaid i adroddiadau y bydd swyddogion yn eu rhoi i'r Pwyllgor Archwilio gynnwys digon o gyd-destun a chefndir i aelodau'r pwyllgor ddeall y prif risgiau a'r problemau y bydd angen iddynt eu trafod. Byddai o gymorth pe bai'r adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth fwy penodol am y camau y mae angen i'r Pwyllgor Archwilio eu cymryd er mwyn ymgymryd â'i swyddogaethau craidd. Er enghraifft, cyflwyno llai o adroddiadau sy'n gwneud dim mwy na gofyn i'r Pwyllgor 'dderbyn yr adroddiad' neu 'nodi cynnydd'. Dylai'r adroddiad esbonio wrth y Pwyllgor pam mae'n ei drafod a pha gamau y mae angen iddo'i gymryd i ymateb iddo, gan gynnwys a oes angen cymryd camau pellach.

12 Trefnodd y Cyngor hyfforddiant penodol i aelodau'r Pwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf 2017. Dywedodd yr aelodau a fanteisiodd ar yr hyfforddiant hwn ei fod yn ddefnyddiol. Mae'r Cyngor yn parhau i gynnal sesiynau datblygu i'r Pwyllgor Archwilio bob chwe mis o leiaf. Gall aelodau awgrymu eitemau ar gyfer y sesiynau datblygu. Hyd yma, cafwyd sesiynau'n ymdrin â phynciau fel cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio, deall datganiad cyfrifon y Cyngor, a newidiadau mewn arferion caffael. Roedd y rhan fwyaf o aelodau'r Pwyllgor hefyd yn teimlo'u bod yn cael digon o sesiynau hyfforddi a datblygu i ymgymryd â'u gwaith yn y Pwyllgor Archwilio. Fodd bynnag, o'r hyn a welsom ni yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio, ac yn ein gweithdai gydag aelodau'r Pwyllgor, credwn y byddai'n ddefnyddiol trefnu rhagor o hyfforddiant i'r aelodau ar gylch gwaith y Pwyllgor Archwilio, eu rôl fel aelodau'r Pwyllgor a'r gwahaniaeth rhwng cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio a'r swyddogaeth craffu.

## Mae angen i'r Pwyllgor Archwilio gryfhau ei rôl ym maes rheoli risg a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

13 Yn ystod ein hadolygiad, ystyriwyd a oedd Pwyllgor Archwilio'r Cyngor yn cyflawni'r saith swyddogaeth graidd y mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth wedi'u pennu ar gyfer pwyllgorau archwilio.[2]

14 **Swyddogaeth graidd 1 – 'I'r Pwyllgor Archwilio fod yn argyhoeddedig bod datganiadau sicrwydd yr awdurdod, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn adlewyrchu'r amgylchedd risg yn briodol ac unrhyw gamau y mae angen eu cymryd i'w wella, a dangos sut y mae trefniadau llywodraethu'n cynorthwyo'r awdurdod i gyflawni ei amcanion.'**

- Gwelsom mai cyfyngedig oedd dealltwriaeth aelodau'r Pwyllgor Archwilio o gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol neu o rôl y Pwyllgor yn y broses o'i ddatblygu a'i oruchwylio. Bydd Grŵp Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor yn paratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Grŵp hwn yn cynnwys aelod o'r Bwrdd Gweithredol (Adnoddau), Aelod o'r Bwrdd Gweithredol (Rheolwr Busnes) ac uwch swyddogion yn y sefydliad. Caiff Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ei wahodd i arsylwi'r cyfarfodydd hyn. Fodd bynnag, nid yw'r cyfarfodydd wedi'u cynnal bob chwarter eleni a, drwy amryfusedd, ni chafodd y Cadeirydd ei wahodd i'r cyfarfod diwethaf. Gan hynny, pan gynhaliwyd ein hadolygiad, nid oedd Cadeirydd presennol y Pwyllgor Archwilio wedi cael cyfle i fod yn bresennol yn unrhyw un o gyfarfodydd y Grŵp.
- Mae cofnodion y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol yn mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio. Mae atodiadau'n ymwneud â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn awr yn cael eu cynnwys fel atodiadau ar wahân i'r cofnodion,

[2] CIPFA (2013) Audit Committees – Practical Guidance for Local Authorities and Police (2013 Edition).

a’r nod yw rhoi mwy o amlygrwydd i’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn y Pwyllgor Archwilio. Caiff y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ei gynnwys fel rhan o’r datganiad cyfrifon, sy’n mynd i’r Pwyllgor Archwilio bob blwyddyn. Mae angen adolygu rôl y Pwyllgor Archwilio yn y broses o baratoi a goruchwylio’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a’i rôl yn y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol, a hynny er mwyn sicrhau bod digon o gyfle i’r Pwyllgor Archwilio gyfrannu at y broses lywodraethu allweddol hon ac ymgymryd â’i gyfrifoldeb yn effeithiol yn y maes hwn.

15 **Swyddogaeth graidd 2 - ‘mewn perthynas â swyddogaethau archwilio mewnol yr awdurdod, mae angen iddo:**

- **oruchwylio’i annibyniaeth, ei wrthrychedd, ei berfformiad a’i broffesiynoldeb;**
- **sicrhau bod y broses archwilio mewnol yn effeithiol; a**
- **sicrhau bod y broses archwilio mewnol yn cael ei defnyddio’n effeithiol o fewn y fframwaith sicrwydd**.’

- Gwelsom fod perthynas dda â’r swyddogaeth archwilio mewnol ac roedd y Pwyllgor yn gefnogol i waith y tîm archwilio mewnol. Ar hyn o bryd, nid yw holl aelodau’r Pwyllgor Archwilio’n cael yr holl adroddiadau archwilio mewnol. Mae’r adroddiadau archwilio mewnol yn cael eu dosbarthu i: Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Arweinydd y Cyngor, Aelod o’r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau a’r aelodau perthnasol eraill o’r Bwrdd Gweithredol (gan ddibynnu ar y pwnc dan sylw). Rhaid i aelodau eraill y Pwyllgor Archwilio ofyn am gopi o’r adroddiadau. O ganlyniad, nid yw aelodau ehangach y Pwyllgor yn adolygu’r holl gasgliadau mewnol nac yn asesu’r risgiau cysylltiedig. Gellid hefyd gwella’r adroddiadau archwilio mewnol a gaiff eu paratoi ar gyfer y Pwyllgor Archwilio drwy gynnwys mwy o gyd-destun i’w gwaith archwilio. Byddai hynny’n helpu aelodau’r Pwyllgor i weld y darlun ehangach a’r prif faterion. Er enghraifft: dylai adroddiadau ddangos:
  - materion sydd wedi’u nodi o’r blaen;
  - a oes unrhyw batrymau’n dod i’r amlwg;
  - a ddysgwyd gwersi o’r archwiliadau blaenorol; ac
  - a yw’r hyn a ddysgwyd yn cael ei gymhwyso’n effeithiol yn y gwasanaethau.
- Gan fod y Pennaeth Archwilio Mewnol yn awr yn ymgymryd â rôl ehangach fel Pennaeth Refeniw a Chydymffuriaeth Ariannol, gwelsom hefyd fod gwrthdaro buddiannau posibl. Mae’r Cyngor wedi penodi Prif Archwilydd yn ddiweddar. Y bwriad yw i’r unigolyn hwn reoli’r holl waith archwilio mewnol mewn meysydd y mae gan y Pennaeth Refeniw a Chydymffuriaeth Ariannol gyfrifoldeb gweithredol drostynt. Mae angen i’r Cyngor a’r Pwyllgor Archwilio

fod yn sicr y bydd y trefniadau newydd hyn yn lliniaru'r gwrthdaro buddiannau ac y byddant yn gweithredu'n effeithiol.

16 **Swyddogaeth graidd 3 – 'Ystyried pa mor effeithiol yw trefniadau rheoli risg ac amgylchedd rheoli'r awdurdod. Adolygu proffil risg y sefydliad a sicrhau bod camau'n cael eu mewn perthynas â materion yn ymwneud â risg, gan gynnwys partneriaethau â sefydliadau eraill.**'

- Cyfyngedig yw goruchwyliaeth y Pwyllgor Archwilio dros y trefniadau rheoli risg. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi bod yn cael cofnodion y grŵp llywio rheoli risg. Fodd bynnag, ni chafodd weld y gofrestr risg gorfforaethol rhwng Mawrth 2017 a Mawrth 2018, er i'r Pwyllgor Archwilio gytuno ar 24 Mawrth 2017 y byddai'r Pwyllgor yn gweld y gofrestr risg bob chwe mis.
- Roedd y gofrestr risg a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 23 Mawrth 2019 yn cynnwys bylchau yn y wybodaeth ac mae aelodau'r Pwyllgor wedi gofyn am ragor o wybodaeth.
- Ar nodyn cadarnhaol, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi gofyn i'r swyddogion sy'n gyfrifol am risgiau ar y gofrestr ddod i gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol i drafod y risgiau.

17 **Swyddogaeth graidd 4 – 'Monitro pa mor effeithiol yw'r amgylchedd rheoli, gan gynnwys trefniadau i sicrhau gwerth am arian ac i reoli i ba raddau y mae'r awdurdod yn agored i risg mewn perthynas â thwyll a llygredd.'**

- Mae'r Pwyllgor yn gweithio'n dda gyda'r archwilydd allanol i reoli i ba raddau y maent yn agored i dwyll a llygredd. Bydd yr archwilydd allanol yn gofyn i'r Cyngor lenwi holiadur i'w helpu gyda'i waith. Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio'n llenwi'r holiadur hwn gyda'i gilydd.
- Mae gwaith y Pwyllgor Archwilio o ran sicrhau gwerth am arian yn gyfyngedig ar hyn o bryd.

18 **Swyddogaeth graidd 5 – 'Ystyried adroddiadau ac argymhellion gan gyrff archwilio ac arolygu allanol a'u goblygiadau o ran llywodraethu neu reoli risg.'**

- Mae'r Cyngor wedi gwella'i drefniadau i ystyried adroddiadau ac argymhellion yr archwilydd allanol. Mae'r Pwyllgor Archwilio'n awr yn trafod yr holl adroddiadau perthnasol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r Pwyllgor Archwilio yn gweld adroddiadau gan reoleiddwyr ar arolygwyr allanol eraill fel mater o drefn, ac ni all ystyried y risgiau cysylltiedig i'r Cyngor. Mae angen i'r Pwyllgor weld yr adroddiadau hyn i'w sicrhau ei hun bod unrhyw risgiau ynddynt yn cael eu hystyried yn briodol.

19 **Swyddogaeth graidd 6 – 'Creu perthynas effeithiol rhwng timau archwilio allanol a thimau archwilio mewnol, asiantaethau arolygu a chyrff perthnasol eraill, a chymryd camau i hyrwyddo gwerth y broses archwilio.'**

- Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Archwilio fod ganddynt berthynas dda â swyddogion archwilio mewnol ac allanol. Roedd y cyfarfod anffurfiol a gynhaliwyd ar y cyd ag archwilio mewnol ac allanol hefyd wedi bod yn

fuddiol meddent. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud cais i'r cyfarfodydd anffurfiol hyn gael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn. Nid yw'r Pwyllgor Archwilio wedi cyfarfod â rheoleiddwyr ac arolygwyr allanol eraill fel Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru. Efallai y gellid ystyried gwneud hynny.

20 **Swyddogaeth graidd 7 – 'Adolygu datganiadau ariannol, barn yr archwilydd allanol ac adroddiadau i'r aelodau, a monitro trefniadau monitro fel ymateb i faterion a godir yn ystod archwiliad allanol.'**

- Mae'r Pwyllgor Archwilio'n adolygu'r adroddiadau a gyflwynir iddynt ac yn gwneud hynny'n effeithiol, ond gellid cryfhau'r trefniadau ar gyfer olrhain a monitro'r hyn y mae rheolwyr yn ei wneud i ymateb i faterion sy'n codi o ganlyniad i archwiliadau allanol a mewnol. Caiff argymhellion adroddiadau archwilio mewnol ac allanol eu hychwanegu at y System Rheoli Gwybodaeth am Berfformiad (PIMS). Caiff swyddog ei ddynodi i fod yn gyfrifol am y camau gweithredu, a phennir dyddiad i gwblhau'r gwaith. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'r Pwyllgor Archwilio'n cael adroddiadau i ddangos a yw'r gwaith yn cael ei gwblhau o fewn yr amserlen a bennwyd.

21 Yn ogystal â'r swyddogaethau craidd hyn, mae CIPFA yn cydnabod rhai o'r swyddogaethau ehangach y gall y Pwyllgor Archwilio ymgymryd â nhw i gynorthwyo'r Cyngor ymhellach, sef:

- ystyried materion yn ymwneud â llywodraethu, risgiau neu drefniadau rheoli os yw pwyllgorau eraill neu swyddogion statudol yn gofyn iddo wneud hynny;
- gweithio gyda phwyllgorau safonau lleol i hybu gwerthoedd moesegol ac adolygu'r trefniadau i ymgyrraedd ar y gwerthoedd hynny;
- adolygu a monitro trefniadau rheoli'r trysorlys yn unol â Chod Ymarfer Rheoli Trysorlys CIPFA; a
- goruchwylio adroddiadau cyhoeddus eraill, fel yr adroddiad blynyddol.

Ychydig o dystiolaeth a welsom fod y Pwyllgor yn ymgymryd â'r dyletswyddau ehangach hyn. Fodd bynnag, roedd aelodau'r Pwyllgor Archwilio'n cydnabod bod cyfleoedd i gryfhau cysylltiadau â phwyllgorau eraill y Cyngor, ac iddynt fod â dealltwriaeth well o pryd y gallai fod yn briodol iddynt gyfeirio materion i sylw pwyllgorau trosolwg a chraffu.

## Mae angen i'r Cyngor ddatblygu ymhellach ei drefniadau i adolygu pa mor effeithiol yw'r Pwyllgor Archwilio

22 Ym mis Gorffennaf 2016, cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio sesiwn adolygu. Nod yr adolygiad oedd trafod cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio a chytuno ar unrhyw newidiadau roedd eu hangen i gyflawni'i gyfrifoldebau. Nodwyd nifer o gamau i'w cymryd, ac mae rhai wedi'u rhoi ar waith. Er enghraifft, mae atodiadau'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn awr ynghlwm wrth gofnodion y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol pan gânt eu dosbarthu i'r Pwyllgor Archwilio. Fodd bynnag, nid yw camau eraill wedi'u cymryd eto:

- nid yw'r Pwyllgor Archwilio'n trafod y gofrestr risg gorfforaethol ddwywaith y flwyddyn;

- nid yw'r Pwyllgor Archwili'n olrhain hynt argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru; ac
- nid yw'r Pwyllgor wedi ystyried gwaith Pwyllgorau Archwilio eraill i benderfynu ar arfer da y gallai eu mabwysiadu.

Mae'r Pwyllgor Archwilio'n awr yn dechrau rhoi sylw i'r materion hyn.

23 Cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio hunanarfarniad yn ystod ei sesiwn datblygu ar 15 Tachwedd 2017. Nid oedd yr hunanarfarniad yn effeithiol iawn oherwydd, ar y pryd, dim ond dau gyfarfod roedd y Pwyllgor Archwilio newydd wedi'i gael, ac roedd yn anodd i'r aelodau newydd roi asesiad effeithiol. Yn ogystal â hyn, ni pharatowyd cofnod ysgrifenedig o'r hunanafarniad ac ni ddeilliodd unrhyw gynllun gweithredu o'r drafodaeth. Byddai proses hunanarfarnu mwy trylwyr, gan gynnwys adolygiad o effeithiolrwydd a dylanwad y Pwyllgor Archwilio yn helpu i sicrhau newidiadau er gwell.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru